Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: Green Net tudalen 1 o 2

Green Net, Reis, Gwlad Thai

Photos: Traidcraft/Michael Commons, Earth Net Foundation

Green Net

Cafodd Cwmni Cydweithredol Green Net ei sefydlu ym 1993 yn Bankok gan grŵp o gynhyrchwyr reis ar adeg pan oedd ffermwyr yn dioddef o gynnydd yng nghostau cynhyrchu reis a gostyngiad yn y pris y gallen nhw ei gael amdano. Yr un pryd, roedd pobl Gwlad Tai yn dechrau pryderu am effaith plaladdwyr cemegol ar eu hiechyd ac ar eu hamgylchedd. Cafodd Green Net ei ffurfio mewn ymateb i alw gan y cyhoedd am gynnyrch organig ac erbyn hyn y mae'n gweithio i hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy drwy gael marchnad masnach deg i gynhyrchwyr. Mae wyth cymdeithas o ffermwyr yn y cwmni cydweithredol, o ranbarthau gogledd, gogledd-ddwyrain a chanol Gwlad Tai, gyda chyfanswm o tua 1,100 o aelodau.

Mae gan dair o'r cymdeithasau ffermwyr eu melinau reis eu hunain ac felly mae pob aelod o Green Net o bob un o'r wyth rhanbarth yng Ngwlad Thai yn anfon eu reis i'r melinau hyn. Fodd bynnag, dyw tyfu reis ddim yn fusnes proffidiol a does fawr ddim arall y gall y ffermwyr ei dyfu. O ganlyniad, mae llawer o fudo o'r ardaloedd hyn. Fel gyda chymaint o gynnyrch eraill, mae problemau ffermwyr reis drwy'r byd i gyd yn cael eu chwyddo gan wledydd fel Unol Daleithiau America sy'n cynnig sybsidi i'w ffermwyr ac yna'n gwerthu gweddill eu cnwd yn rhad mewn gwledydd sy'n datblygu. Golyga hyn nad yw ffermwyr lleol yn gallu gwerthu eu cnydau eu hunain, sy'n arwain at dlodi a dyled ac weithiau'n eu rhoi allan o fusnes. Yn aml, mae rhai o'r teulu'n gorfod gweithio y tu allan i'r ardal ac anfon arian adref gan nad oes digon o incwm yn dod o ffermio.

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: Green Net tudalen 2 o 2

Green Net, Reis, Gwlad Thai

Yn 2002, cafodd Green Net ei ardystio gan Sefydliadau Labelu Masnach Deg sy'n golygu y gallai werthu ei reis ar farchnad allforio swyddogol masnach deg. Erbyn hyn, mae'n gwerthu reis i wledydd Ewrop megis yr Almaen, Ffrainc a'r Eidal yn ogystal ag i wledydd Prydain. Nid reis yn unig y mae Green net yn ei allforio. Mae'n un o gynhyrchwyr a chyfanwerthwyr cynnyrch organig mwyaf Gwlad Thai ac yn gwerthu dros 20 o gynnyrch gan gynnwys afalau pîn, cnau coco, cnau mwnci, te a cholur. Mae ffermwyr hefyd yn cynhyrchu llawer o nwyddau i'w gwerthu mewn marchnadoedd lleol megis ffrwythau a llysiau.

I ddechrau, roedd premiwm Masnach Deg yn cael ei fuddsoddi yn y melinau reis ac mewn cyfrifiaduron ac offer eraill ar gyfer eu swyddfeydd. Yn 2005, gwnaeth y melinau golledion mawr ar ôl iddyn nhw fethu â gwneud elw wrth werthu eu reis. Roedd y premiwm Masnach Deg yn hanfodol i gadw'r melinau i fynd.

I Green Net, mae cysylltiad agos rhwng yr amgylchedd, masnach deg a chynnyrch organig ac mae pob un yr un mor bwysig. "Byw'n Deg, Byw'n Organig". Mae wedi bod yn weithgar ac yn ddylanwadol yng nghylchedd ffermio organig yng Ngwlad Thai ac wedi sefydlu corff ardystio organig cenedlaethol. Yn 2000, sefydlodd Green Net Sefydliad Earth Net i gynnal ymchwil ac i ddatblygu cynnyrch organig a sefydliadau cymunedol. Mae Sefydliad Earth Net yn cynnig nifer o gyfleoedd i ffermwyr, gan gynnwys hyfforddiant a thechnoleg, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth cwsmeriaid. Mae Green Net ei hunan yn dal i ganolbwyntio ar ddod â gwerthoedd masnach deg i grwpiau ffermwyr.

Am ragor o wybodaeth:
www.greennet.or.th

Photos: Traidcraft/Michael Commons, Earth Net Foundation